**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Ein cyf: MA-RE-2569-23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Tachwedd 2023

Annwyl John,

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Yn sgil cyflwyno Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Senedd ar 20 Tachwedd 2023, amgaeaf gopi o'r datganiad o fwriad polisi. Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn i Huw Irranca-Davies AS – Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Tachwedd 2023

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

**Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth**

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn nodi bwriad y polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (‘y Bil’).

Mae'r Datganiad wedi'i lunio er mwyn helpu Pwyllgorau yn ystod y broses o graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig. Nodir manylion gweithdrefn y Senedd sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac ni chânt eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

Mae'r Bil yn cyfrannu at ddiwygio’r system ardrethi annomestig a system y dreth gyngor yng Nghymru. I grynhoi, mewn cysylltiad â'r system ardrethi annomestig mae'r Bil yn cynnig y dylid gwneud y canlynol:

- cynnal ailbrisiadau bob tair blynedd a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio a'r bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisio drwy reoliadau;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn rhoi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl;
- cryfhau'r amodau cymhwystra ar gyfer rhyddhad elusennol i hereditamentau heb eu meddiannu;
- ehangu'r diffiniad o adeilad newydd at ddibenion cyflwyno hysbysiadau cwblhau gan awdurdodau lleol;
- dileu cyfyngiad amser ar ddyfarnu ac amrywio rhyddhad dewisol gan awdurdodau lleol;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn rhoi neu amrywio esemptiadau neu eu tynnu'n ôl;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn pennu lluosyddion gwahaniaethol yn seiliedig ar ddisgrifiad, gwerth ardrethol neu leoliad hereditament ar y rhestr leol, neu werth ardrethol hereditament ar y rhestr ganolog;
- gosod dyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu mathau penodol o wybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a gwneud darpariaeth ar gyfer y gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig;
- gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau osgoi artiffisial.

Ac mewn cysylltiad â system y dreth gyngor mae'n cynnig y dylid gwneud y canlynol:

- rhoi hyblygrwydd i'r cyfeirbwynt ar gyfer 100% yn y strwythur bandio gael ei newid i fand gwahanol neu ddisgrifiad gwahanol o fand;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â disgowntiau a phersonau sydd i'w diystyru;

- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud un Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol drwy reoliadau a galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y ffordd y dylid cymhwyso'r cynllun;
- sefydlu cylch ailbrisio pum mlynedd a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio a'r bwlch rhwng ailbrisiadau, yn ogystal â diwygio dyddiad cyhoeddi rhestrau drafft drwy orchymyn; a
- dileu'r gofyniad presennol i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau newydd ac, yn ei le, gyflwyno gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o daliadau'r dreth gyngor ar wefan yr awdurdod lleol a rhoi trefniadau amgen addas ar waith er mwyn sicrhau y gall dinasyddion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau ar-lein gael gafael ar wybodaeth o'r fath.

Nodir y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau'r Bil yn y tablau canlynol, ynghyd â'r rhesymau pam mae angen y pwerau hyn a bwriadau'r polisi o ran y defnydd a wneir ohonynt.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid.

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig** | | |
| 1 | 4 | Pŵer i Weinidogion Cymru newid blwyddyn ailbrisio ardrethi annomestig. | Caiff eiddo annomestig ei ailbrisio'n rheolaidd. Fodd bynnag, bu'n rhaid newid blynyddoedd y ddau ailbrisiad ardrethi annomestig diwethaf. Cafodd ailbrisiad 2017 ei symud o 2015 er mwyn rhoi mwy o sefydlogrwydd i fusnesau wrth i'r economi barhau i adfer ar ôl cyfnod o ddirwasgiad ac yn wreiddiol roedd disgwyl i ymarfer ailbrisio 2023 gael ei gynnal yn 2022 (i ddechrau roedd disgwyl iddo gael ei ddwyn ymlaen i 2021 ond cafodd ei aildrefnu wedyn oherwydd effaith pandemig y coronafeirws).<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir newid blwyddyn ailbrisiad a, hyd yma, mae hyn wedi'i wneud yng Nghymru drwy wneud darpariaeth yn un o Filiau Senedd y DU. Mae hyn wedi digwydd sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf am sawl rheswm.<br><br>Bydd y gallu i wneud newidiadau o'r fath yn ôl yr angen drwy is-ddeddfwriaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn well i newidiadau economaidd wrth ystyried y flwyddyn ailbrisio a gwneud penderfyniadau yn agosach at ddyddiad ailbrisiad arfaethedig. Gallai'r pŵer hwn gael ei arfer pan fyddai ffactorau macro-economaidd neu ffactorau eraill yn golygu y byddai'n fuddiol i dalwyr ardrethi yng Nghymru petai blwyddyn ailbrisiad yn cael ei newid. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 2 | 4 | Pŵer i Weinidogion Cymru newid y bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisio ardrethi annomestig. | Ar hyn o bryd, cynhelir ailbrisiadau ardrethi annomestig bob pum mlynedd a bydd y Bil yn lleihau'r bwlch rhwng ailbrisiadau i dair blynedd. Mae ailbrisiadau mwy rheolaidd yn golygu bod gwerthoedd ardrethol eiddo annomestig yn adlewyrchu amodau'r farchnad yn well. Mae cylchoedd byrrach yn newid y mae'r gymuned fusnes wedi galw amdano ac sy'n gwneud y system yn fwy ymatebol ar gyfer talwyr ardrethi. Fodd bynnag, nid yw lleihau'r bwlch rhwng ailbrisiadau i lai na thair blynedd yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau gweithredol. Mae'n bosibl y bydd y sefyllfa hon yn newid yn y dyfodol.<br><br>Caniateir defnyddio'r pŵer hwn i newid y bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisio os bydd newidiadau gweithredol yn golygu bod modd cyflwyno cylchoedd ailbrisio byrrach yn y dyfodol. Byddai hefyd yn bosibl cynyddu'r bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisio ond mae'n llai tebygol y bydd galw am wneud hynny o gymharu â chyflwyno cylch byrrach. Byddai'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i newid ddigwydd mewn ffordd amserol ac i'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU gael ei ystyried.<br><br>Bydd y pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol neu gysylltiedig i'r darpariaethau ar gyfer y flwyddyn a'r cylch ailbrisio ond yn darparu ar gyfer gwneud newidiadau technegol er mwyn sicrhau y bydd y gwaith drafftio yn parhau i fod yn ddichonadwy os caiff y flwyddyn neu'r cylch ailbrisio ei newid. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 3 | 5 | Pwerau i Weinidogion Cymru roi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl. | Mae'r graddau y gall Gweinidogion Cymru newid y system bresennol o ryddhadau ar hyn o bryd yn anghyson. Mae darpariaethau wedi'u gwneud ym Miliau Senedd y DU ar sawl achlysur er mwyn i ryddhadau newydd allu cael eu darparu yng Nghymru. Mewn achosion eraill, gellir gwneud newidiadau gan ddefnyddio pwerau presennol i wneud rheoliadau, sy'n creu cymysgedd cymhleth i ddefnyddwyr ymdrin ag ef. Byddai'r pwerau hyn yn rhoi cysondeb a mwy o hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid. Gallent hefyd osgoi'r angen i ddibynnu ar gynlluniau grant a disgresiwn awdurdodau lleol i ddarparu ymatebion brys, lle y byddai cynllun rhyddhad statudol yn well ac yn sicrhau mwy o gysondeb.<br><br>Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi y caiff y system bresennol o ryddhadau ei hadolygu yn ystod tymor y Senedd hon a byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i roi canlyniad yr adolygiad hwnnw, os bydd angen newid deddfwriaethol. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 4 | 9 | Pwerau i Weinidogion Cymru roi neu amrywio esemptiadau neu eu tynnu'n ôl. | Mewn achosion penodol, pan ystyrir na ddylai math o hereditament fod yn atebol i dalu ardrethi annomestig ar sail hirdymor na pharhaol ac y byddai'n anodd ei brisio neu pe na byddai unrhyw fantais yn deillio o'i brisio, gellir ystyried bod esemptiad yn fwy priodol na rhyddhad llawn rhag talu'r swm a godir. Nodir amrywiaeth o esemptiadau rhag talu ardrethi annomestig mewn deddfwriaeth sylfaenol bresennol. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfyngedig i ragnodi esemptiadau mewn rheoliadau nad yw'n rhoi fawr ddim hyblygrwydd ymarferol.<br><br>Byddai'r pwerau hyn yn sicrhau cysondeb rhwng rhyddhadau ac esemptiadau o ran y graddau y caniateir gwneud newidiadau gan reoliadau. Gallent osgoi'r angen i ddibynnu ar ryddhad llawn o dan amgylchiadau lle yr ystyrir bod esemptiad parhaol yn fwy priodol. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 5 | 10 | Pŵer i Weinidogion Cymru osod lluosyddion ardrethi annomestig gwahaniaethol yn seiliedig ar ddisgrifiadau o hereditamentau sydd i'w pennu mewn rheoliadau. | Ar hyn o bryd, mae un lluosydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl hereditamentau annomestig yng Nghymru sy'n golygu yr ymdrinnir â mwy na 125,000 yn union yr un ffordd mewn cysylltiad ag ef. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu'r lluosydd presennol ar unrhyw lefel ond nid i ragnodi lluosyddion gwahaniaethol ar gyfer mathau gwahanol o eiddo.<br><br>Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi system fwy hyblyg ar waith a all drin mathau gwahanol o eiddo mewn ffordd fwy penodol er mwyn cyfrannu at uchelgeisiau polisi ehangach (er enghraifft, lluosydd is ar gyfer busnesau ‘gwyrdd’, hereditamentau â gwerth ardrethol is neu'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd menter a chynlluniau adfywio strydoedd mawr). Ni fwriedir defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd a dim ond ar ôl ystyried y mater yn dryloyw ac ymgynghori â'r cyhoedd y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | 13 | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi pa drefniadau osgoi ardrethi annomestig sy'n artiffisial ac a ellid rhoi cosb am fethu â thalu swm sy'n ddyledus o ganlyniad i wneud trefniant o'r fath.<br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r lefel uchaf o gosb a gwneud darpariaeth arall mewn perthynas â chasglu a gorfodi cosbau drwy reoliadau. | Yn dilyn ymarfer casglu data helaeth gydag awdurdodau lleol yn 2017, amcangyfrifwyd bod gwasanaethau lleol hanfodol yn colli refeniw gwerth rhwng £10m a £20m o ganlyniad i osgoi ardrethi annomestig. Er bod sawl ymyriad i fynd i'r afael ag ymddygiadau osgoi trethi hysbys wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith, mae angen mynd i'r afael ag ymddygiadau newydd a rhai sy'n datblygu o hyd, wrth iddynt gael eu nodi.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond er mwyn helpu i nodi atebolrwydd, drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth o dan amgylchiadau penodol, y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau. Ni allant wneud rheoliadau er mwyn mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig. Bydd y pŵer hwn yn eu galluogi i ymateb i ddulliau penodol o osgoi ac i gyfraith achosion berthnasol, mewn modd amserol. Bwriad y polisi yw gwrthweithio manteision a geir o drefniadau artiffisial i osgoi ardrethi annomestig. Bydd y rheoliadau yn disgrifio dulliau osgoi penodol sydd i'w trin fel rhai artiffisial (ac felly yn ddarostyngedig i'r canlyniadau a nodir yn narpariaethau'r Bil) a chaniateir iddynt ddarparu nad yw trefniant yn artiffisial os gwneir penderfyniad i'r perwyl hwnnw.<br><br>Ni fydd rheoliadau yn gallu atal ymddygiadau osgoi mewn termau amhenodol na chyffredinol ac ni fyddant yn gallu dadwneud na chosbi achosion o osgoi trethi a gododd cyn i'r rheoliadau ddod i rym. Mae'n bwysig y gall rheoliadau yn erbyn osgoi trethi ddarparu ar gyfer cymryd camau gorfodi ar ffurf cosbau sifil, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | | | dull gwirioneddol o atal ymddygiadau osgoi parhaus penodol. Bwriedir i'r gyfundrefn orfodi sicrhau y caiff unigolyn y nodir ei fod wedi bod yn defnyddio ymddygiad osgoi penodol, gyfle i roi'r gorau i'r ymddygiad hwnnw a thalu'r swm sy'n ddyledus ers i'r rheoliadau ddod i rym. Os bydd yn methu â thalu swm sy'n ddyledus, dim ond bryd hynny y bydd yn agored i gosb sifil hefyd.<br>Caniateir defnyddio pwerau i newid y lefel uchaf o gosb ac i wneud darpariaeth arall mewn perthynas â chasglu a gorfodi cosbau i sicrhau bod y gyfundrefn gosbi yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gydnaws â darpariaethau eraill ar gyfer cydymffurfio ag ardrethi annomestig. |
| 7 | Paragraff 9(2)(m) o'r Atodlen | Bydd y diwygiad a wneir gan y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â'r hysbysiadau y gellir eu cyflwyno o dan baragraffau 4M a 5ZC o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. | Caiff swyddogion prisio gyflwyno hysbysiadau i dalwyr ardrethi yn gofyn am wybodaeth y maent yn credu y bydd yn ei helpu i gyflawni eu swyddogaethau, neu roi cosb am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy y mae'r Bil yn eu cymhwyso at Gymru. Mae angen y pŵer hwn er mwyn sicrhau, petai cynnwys rhagor o wybodaeth yn yr hysbysiadau hyn yn fuddiol i dalwyr ardrethi, y gellir gwneud y newidiadau angenrheidiol mewn modd amserol. |
| 8 | Paragraff 9(2)(n) o'r Atodlen | Bydd y diwygiad a wneir gan y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gynyddu neu leihau swm unrhyw gosb a roddir o dan baragraffau 5ZC neu 5ZD o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. | Nodir cosbau am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy i swyddogion prisio yn y darpariaethau y mae'r Bil yn eu cymhwyso at Gymru. Mae angen y pŵer hwn er mwyn sicrhau y gellir addasu lefel y gosb fel y bo'n briodol. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor** | | |
| 9 | 17 | Pŵer i Weinidogion Cymru allu newid cyfeirbwynt neu labeli unrhyw strwythur bandio yn y dyfodol. | Yn y ddeddfwriaeth bresennol, mae Band D wedi'i bennu fel y “cyfeirbwynt” a ddefnyddir i bennu cyfran y dreth gyngor mewn perthynas â phob band arall. Er mwyn sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig gyda'r baich treth wedi'i ddosbarthu'n ehangach yng nghyd-destun cylchoedd ailbrisio pum mlynedd, yn y dyfodol byddai'n fuddiol pe gellid pennu'n cyfeirbwynt ar gyfer 100% ar rywbeth gwahanol i fand D os bydd angen a/neu newid y disgrifiadau o fandiau (er enghraifft o'r llythrennau A, B, C i'r rhifau 1,2,3 ac ati).<br><br>Mae'r ddarpariaeth yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru allu newid labeli unrhyw strwythur bandio a ddatblygir yn y dyfodol fel rhan o ymarfer ailbrisio. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 10 | 18 | Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r swm neu'r cyfrifiad a rhagnodi'r amodau y mae rhaid iddynt fodoli er mwyn i ddisgownt fod yn gymwys i eiddo pam mai dim ond un oedolyn atebol sydd a phan fo pob oedolyn wedi'i ddiystyru. | Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu dau ddisgownt statudol. Cyfeirir at un ohonynt yn gyffredin fel y 'disgownt person sengl' ac mae'n gymwys pan mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor – naill ai am ei fod yn byw ar ei ben ei hun neu am fod y meddianwyr eraill wedi'u diystyru at ddibenion cyfrifo'r dreth gyngor. Mae a wnelo'r ail ddisgownt ag eiddo gwag ac eiddo lle mae pob oedolyn wedi'i ddiystyru. Yn achos eiddo gwag, yn ymarferol ac yn dilyn y newid i fformiwla'r setliad yn 2019-20, mae pob awdurdod lleol wedi arfer ei ddisgresiwn i ddileu'r disgownt a/neu godi premiwm treth gyngor.<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau y bydd unrhyw system o ddisgowntiau a sefydlir gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cynnwys disgownt ar gyfer eiddo lle nad oes ond un oedolyn atebol ac eiddo lle mae pob oedolyn wedi'i ddiystyru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 18 | Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i greu a rhagnodi'r meini prawf ar gyfer mathau newydd o ddisgowntiau a phennu'r swm neu'r cyfrifiad.<br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r meini prawf ar gyfer personau sydd i'w diystyru at ddibenion cyfrifo disgownt y dreth gyngor.<br><br>Pwerau i Weinidogion Cymru ganiatáu i gynghorau ddatgymhwyso neu leihau disgowntiau o dan amgylchiadau penodol. | Mae'r trefniadau craidd ar gyfer disgowntiau a diystyriadau'r dreth gyngor yn bodoli ers 1993 ac nid ydynt wedi newid ers hynny. Mae'r system bresennol o ddisgowntiau yn rhy ragnodol ac wedi dyddio ac mae'r system o ddiystyriadau bellach yn gymysgedd dryslyd a chymhleth o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth y mae'n anodd i ddefnyddwyr ei ddeall. Ychwanegwyd at yr amrywiaeth o ddisgowntiau yn raddol ond mae'r broses hon yn un gymhleth. Roedd y broses o greu disgownt ac esemptiad i bobl ifanc sy'n gadael gofal, er enghraifft, yn gofyn am gymysgedd o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, gyda'r broses o ddileu esemptiadau penodol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol na ellid ei rhoi ar waith tan dair blynedd ar ôl i'r prif ddisgownt ac esemptiad gael eu creu.<br><br>Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i foderneiddio'r system o ddisgowntiau a diystyriadau, gan sicrhau ei bod yn fwy addas ar gyfer anghenion presennol ac yn symlach a'i bod yn haws iddi ystyried gofynion a disgwyliadau newidiol cymdeithas yng Nghymru. At hynny, bydd yn bosibl i'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â disgowntiau a'r rhai sy'n ymwneud â diystyriadau gael eu rhoi mewn un darn o ddeddfwriaeth sy'n golygu y bydd yn llawer haws i drethdalwyr ddeall a defnyddio'r system. Mae'n werth nodi, hyd yma, fod y pwerau sydd ar gael wedi'u defnyddio i ychwanegu at yr amrywiaeth o ddisgowntiau a diystyriadau, yn bennaf er mwyn sicrhau bod grwpiau newydd o bobl yn gymwys i'w cael. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | | | Bwriedir i system wedi'i diweddaru o ddisgowntiau a diystyriadau fod ar waith o flwyddyn ariannol 2026-27 ymlaen ac ymgynghorir ynghylch mân newidiadau yn ystod ymgynghoriad Cam 2. Bydd yr adolygiad o ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau yn parhau wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd a bydd y system wedi'i diweddaru yn sail i newidiadau dilynol, yn amodol ar ymgynghoriad pellach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | 19 | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu un System Gostyngiadau'r Dreth Gyngor genedlaethol. | Nod ein polisi ym Mil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) yw cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y cynllun yn symlach o ran gweinyddu, yn gliriach ac yn un sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol fabwysiadu ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol ei hun bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae pob cynllun yn seiliedig ar ofynion rhagnodedig a nodir mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru gyda dim ond nifer bach o feysydd lle y gellir arfer disgresiwn lleol ac ni ellir gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn. Yn ymarferol, mae hyn yn arwain at gynlluniau sydd fwy neu lai yr un peth ledled Cymru.<br><br>Bydd y darpariaethau yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi cynllun gostyngiadau cenedlaethol drwy is-ddeddfwriaeth gyda dyletswydd ar awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun a nodir yn y ddeddfwriaeth honno yn lleol.<br><br>Bydd y Bil hefyd yn golygu bod modd gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn, a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu'r cynllun er mwyn ymateb i unrhyw anghenion annisgwyl sy'n deillio o newidiadau yn ein heconomi neu ein cymdeithas, megis yr argyfwng costau byw. Mae'r mater hwn wedi codi sawl gwaith, er enghraifft gyda mesurau disgresiwn yn gorfod cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i'r pandemig ac er mwyn cefnogi pobl o Affganistan ac Wcráin. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | | | Bwriedir i'r cynllun cenedlaethol cyntaf ddod i rym ar 1 Ebrill 2026. |
| 13 | 19 | Pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau bilio ar sut i gymhwyso Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol. | Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyflwyno Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol i'w weinyddu gan awdurdodau lleol, a fydd yn disodli'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio cynllun lleol sy'n bodloni gofynion a ragnodwyd yn genedlaethol.<br><br>Bydd y gallu i roi canllawiau i awdurdodau lleol yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff y cynllun ei roi ar waith. |
| 14 | 21 | Pŵer i Weinidogion Cymru newid blwyddyn ailbrisio'r dreth gyngor. | Mae'r Bil yn darparu y dylai fod cylch ailbrisio rheolaidd ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru gydag ailbrisiadau wedi'u trefnu yn cael eu cynnal bob pum mlynedd. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau lle y byddai'n fuddiol i ddyddiad ailbrisiad wedi'i drefnu gael ei newid – er enghraifft, os bydd pandemig arall neu anwadalrwydd economaidd.<br><br>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newid o'r fath mewn modd amserol. Dim ond pan fyddai ffactorau macro-economaidd a ffactorau eraill yn golygu y byddai'n fuddiol i drethdalwyr yng Nghymru petai blwyddyn ailbrisiad yn cael ei newid, y byddai'n cael ei arfer. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 15 | 21 | Pŵer i Weinidogion Cymru newid y bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisio'r dreth gyngor. | Mae'r Bil yn cyflwyno cylch o ailbrisiadau rheolaidd at ddibenion y dreth gyngor yng Nghymru a fyddai'n golygu bod y system yn seiliedig ar brisiadau eiddo mwy cyfredol ar gyfer mwy na 1.4 miliwn o anheddau trethadwy yng Nghymru a'i bod, felly, yn fwy cywir ac yn decach nag ydyw ar hyn o bryd.<br><br>Er bod y Bil yn pennu cylch ailbrisio pum mlynedd, mae'n seiliedig ar gyfyngiadau gweithredol presennol a gallai fod yn bosibl yn y dyfodol – er enghraifft o ganlyniad i newidiadau technolegol – i brisiadau ar gyfer mwy na 1.4 miliwn o anheddau trethadwy yng Nghymru gael eu cynnal o fewn cyfnodau byrrach o amser. Mae hyn yn golygu y byddai prisiadau yn adlewyrchu gwerthoedd eiddo cyfredol yn agosach fyth gan leihau ymhellach y risg o newidiadau mawr ym mand eiddo o'r naill ailbrisiad i'r llall. Fel arall, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, gallai cylch pum mlynedd fod yn rhy aml a byddai'r ddarpariaeth hon yn golygu bod modd gwneud newid yn amserol.<br><br>Bydd y pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol neu gysylltiedig i'r darpariaethau ar gyfer y flwyddyn a'r cylch ailbrisio ond yn darparu ar gyfer gwneud newidiadau technegol er mwyn sicrhau y bydd y gwaith drafftio yn parhau i fod yn ddichonadwy os caiff y flwyddyn neu'r cylch ailbrisio ei newid. |

| Cyf. | Adran o'r Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| 16 | 21 | Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r dyddiad erbyn pryd mae'n rhaid i gopïau o restrau prisio drafft gael eu hanfon i awdurdodau bilio. | Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i gopi o'r rhestr brisio newydd ddrafft gael ei anfon i awdurdodau bilio o fewn saith mis i'r dyddiad y mae'r rhestr newydd yn cael ei gwblhau ac y daw i rym. Os caiff y cylchoedd ailbrisio eu lleihau yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd y terfyn amser hwn yn anymarferol a gallai fod angen ei newid. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y newid technegol hwn os bydd angen. |